

# Ymgynghoriad **Baw Cŵn** **Dog Fouling** Consultation



## YMGYNGHORIAD AR GYFLWYNO GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS AR GYFER RHEOLI CŴN

### RHAI PETHAU I'W COFIO...

#### 1. Beth yw Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus?

O dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014, caiff y Cyngor wneud Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC) er mwyn rheoli rhai gweithgareddau mewn ardal benodol os yw'r gweithgareddau hynny yn debygol o gael effaith negyddol ar ansawdd bywydau'r bobl sy'n byw yn yr ardal honno. Gall hyn gynnwys sawl math o ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau sydd yn aml yn gysylltiedig â chŵn – cŵn yn baeddu, er enghraifft. Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar gyflwyno GGMC ar draws Rhondda Cynon Taf gyda'r bwriad o fynd i'r afael â baw cŵn a chyflwyno rheolaethau penodol ynglŷn â chŵn.

#### 2. Pa reolaethau byddai'r GGMC arfaethedig yn ei gyflwyno?

Byddai'r GGMC yn cyflwyno nifer o gyfyngiadau ar berchnogion cŵn a gofynion iddyn nhw. Dyma nhw:

- Gwahardd cŵn yn baeddu yn y manau cyhoeddus i gyd,
- Ei gwneud yn ofynnol cadw cŵn ar denynnau mewn meysydd chwarae a mynwentydd ym meddiant neu yng ngofal y Cyngor,
- Ei gwneud yn ofynnol cario bagiau neu fodd addas arall i gael gwared ar faw cŵn,
- Rhoi hawl i swyddogion awdurdodedig a rhoi cyfarwyddyd bod ci yn cael ei roi a'i gadw ar dennyn pan fo angen,
- A gwahardd cŵn rhag mynd ar bob safle ysgol a chae chwaraeon sydd wedi'i farcio ym meddiant neu yng ngofal y Cyngor.

#### 3. Pa reoliadau sy'n bodoli eisoes?

Mae eisoes yn drosedd peidio â chodi baw eich cŵn. Mae'n bosibl y caiff cosb benodedig o £75 ei rhoi am fethu â gwneud hynny. O ran rheolau Gwasanaethau Profedigaethau'r Cyngor, mae cŵn wedi'u gwahardd o fynwentydd y Cyngor ar hyn o bryd.

#### 4. Pam rydych chi'n ystyried cyflwyno'r mesurau hyn?

Mae baw cŵn yn annymunol, mae'n niwsans a gall fod yn beryglus i iechyd. Hoffai'r Cyngor gyflwyno GGMC i gymryd lle'r rheoliadau cŵn presennol ac i'w hategu. Byddai hyn yn rhoi pwerau cryfach i'r Cyngor a

Heddlu De Cymru a byddai'n annog perchnogion cŵn i fod yn ofalgar. Bydd hynny hefyd yn gwneud Rhondda Cynon Taf yn lanach, yn fwy iach ac yn fwy diogel i drigolion, i blant ac i ymwelwyr.

**5. Sut fyddai'r GGMC arfaethedig yn cael ei orfodi?**

Bydd Swyddog Awdurdodedig yn gorfodi'r GGMC. Ystyr Swyddog Awdurdodedig yw unrhyw swyddog awdurdodedig o du'r Cyngor, Heddwes neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

**6. Beth fydd cosbau peidio â chydymffurfio â'r GGMC arfaethedig?**

Byddai'r swyddog awdurdodedig yn cyflwyno cosb benodedig o £100. Os na chaiff cosb benodedig ei thalu, caiff yr unigolyn ei erlyn a gallai gael dirwy o hyd at £1,000.

**7. Ble fyddai'r GGMC arfaethedig yn berthnasol?**

Byddai'r gwaharddiad ar gŵn yn baeddu yn ei gwneud yn drosedd i berson sy'n gyfrifol am gi fethu â chael gwared ar ei faw o'r tir ar unwaith os bydd y GGMC mewn grym ar y tir hwnnw. Yn rhan o hyn, byddai'n ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gi fod â bagiau neu fodd addas arall i gael gwared ar y baw. Byddai'r gofynion yma mewn grym ym mhob llecyn cyhoeddus ledled y Fwrdeistref Sirol.

Oherwydd y gofyniad i gadw cŵn ar denynnau, byddai'n yn drosedd i berson sy'n gyfrifol am gi beidio â'i gadw ar dennyn ym mhob maes chwarae a mynwent ym meddiant neu yng ngofal y Cyngor.

Oherwydd y gofyniad i ddilyn cyfarwyddyd i roi ci ar dennyn, byddai'n drosedd i berson sy'n gyfrifol am gi beidio â'i roi ar dennyn ar ôl i Swyddog Awdurdodedig ofyn iddo wneud hynny. Byddai'r gofyniad yma mewn grym ym mhob llecyn cyhoeddus ledled y Fwrdeistref Sirol.

Byddai'r gofyniad o ran gwaharddiadau cŵn yn ei gwneud yn drosedd i berson sy'n gyfrifol am gi fynd ag ef ar unrhyw dir perthnasol i'r rhan hon o'r GGMC, neu i ganiatáu iddo aros ar y tir hwnnw. Byddai hyn yn berthnasol i bob safle ysgol a phob cae chwaraeon sydd wedi'i farcio ym meddiant neu yng ngofal y Cyngor.

**8. Beth yw ystyr "man cyhoeddus"?**

Mae diffiniad man cyhoeddus yn eang ac mae'n cynnwys unrhyw fan cyhoeddus y mae modd i'r cyhoedd, neu ran o'r cyhoedd, ei gyrraedd, drwy dalu neu drwy unrhyw fodd arall, pan fo ganddyn nhw'r hawl i wneud hynny neu pan fo ganiatâd ymhlyg.

**9. Pam mae rhaid i mi roi fy nghi ar dennyn os bydd Swyddog Awdurdodedig yn fy nghyfarwyddo i wneud hynny?**

Drwy ofyn i berchnogion cŵn eu rhoi ar denynnau, byddai llai o risg y bydd cŵn yn baeddu a bydd yn sicrhau bod perchnogion cŵn yn cadw eu cŵn o dan reolaeth er mwyn diogelwch y cyhoedd.

**10. Pam rydych chi'n gwahardd cŵn o safleoedd ysgol a chaeau chwaraeon sydd wedi'u marcio ym meddiant neu yng ngofal y Cyngor?**

Mae angen gwahardd cŵn o safleoedd ysgol a chaeau chwaraeon sydd wedi'u marcio i ddiogelu pobl, a phlant yn arbennig, rhag y risgiau o faw cŵn, ac i sicrhau eu bod yn fannau diogel a dymunol i blant ac eraill chwarae a mwynhau ymarfer corff.

**11. Rwy'n defnyddio ci tywys - byddai'r GGMC arfaethedig yn berthnasol i mi?**

Fyddai'r GGMC arfaethedig ddim yn gymwys i berson a gofrestrwyd yn rhannol ddall, nam ar y golwg neu'n ddall, neu i bobl anabl sy'n defnyddio ci tywys hyfforddedig, neu i berson anabl arall nad oes disgwyl rhesymol i'r person hwnnw symud y baw ci.

**12. Pryd bydd y GGMC yn dod i rym?**

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynlluniau arfaethedig yma. Cyn cyflwyno'r GGMC, bydd y Cyngor yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Os bydd y Cyngor yn penderfynu gweithredu'r GGMC, caiff y dyddiad y bydd yn gwneud hynny ei gyhoeddi cyn i'r pwerau ddod i rym.

Mae'r adroddiad ar y cynllun arfaethedig i gyflwyno GGMC ar wefan y Cyngor.